



**Llechi,
Glo a
Cefn
Gwlad**

Adroddiad Blynyddol

2022

LLECHI | GLO | CEFN GWLAD



SLATE | COAL | COUNTRYSIDE

Cynnwys

Llechi, Glo a Chefn Gwlad.....	1
Crynodeb o Llechi, Glo a Chefn Gwlad	3
Beth ddigwyddodd.....	7
Cymuned o bartneriaid	7
Cyfnod o newid.....	7
Y Gymraeg	8
Buddsoddi mewn arweinyddiaeth gymunedol.....	9
Y partneriaid a'u gwaith.....	11
Tir Dewi	11
DOVE	12
Tir Coed.....	14
Gofalwyr Credu.....	15
Partneriaeth Ogwen.....	16
Cwmni Bro Ffestiniog.....	18
Siop Griffiths	19
Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bwl	20
Pobl a Gwaith: Cenhedlaeth Rhondda.....	21
Dysgu allweddol	23
Dod â phobl at ei gilydd eto	23
Diwylliant a chreadigrwydd	25
Buddsoddi mewn gwybodaeth a sgiliau cymunedol	26
Cysylltu cymunedau.....	28
Costau Byw	28
Yr Amgylchedd	29
Asedau cymunedol	29
Atodiad.....	31

Crynodeb o Llechi, Glo a Chefn Gwlad

Roedd Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn rhaglen dair blynedd a weithiodd gyda naw partner ledled Cymru. Canolbwyntiodd y rhaglen ar y canlynol:

- gwaith a ddatblygodd a/neu a gefnogodd yr economi sylfaenol a lleol iawn; a
- phrofi dull arweinyddiaeth gymunedol a oedd yn cynnwys partneriaid yn cyflogi aelod o'u cymuned am 12 mis i adeiladu gweithgarwch cymunedol tra hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u profiad eu hunain – cyflogwyd 27 o arweinwyr cymunedol.

Daeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad o drafodaethau yn Talwrn¹, sef grŵp anffurfiol o bobl sy'n gweithio gyda chymunedau Cymru. Mae'r grŵp wedi bod yn cwrdd yn rheolaidd ers 2015. Roedd y grŵp wedi nodi faint o'i waith a oedd yn cael ei lywio drwy gyflwyno 'prosiectau', i'r graddau bod dod o hyd i'r amser i fod yn rhan o'r gymuned a chlywed yr hyn roedd pobl yn ei ddweud ac i gymryd risgiau wrth gefnogi syniadau newydd yn anodd iawn. Mae prosiectau bron bob amser ar sail amser cyfyngedig, felly roedd cymryd risg o ran recriwtio pobl leol y byddai angen amser arnynt i ddatblygu eu hyder a'u gwybodaeth yn heriol iawn hefyd. Felly, cafodd Llechi, Glo a Chefn Gwlad ei gynllunio i alluogi sefydliadau cymunedol a gwirfoddol i greu cyflogaeth am dâl am ddeuddeg mis ar gyfer person lleol a allai helpu'r partner i ddatblygu ei rwydweithiau cymunedol,

Roedd y prosiect hefyd wedi dod â'r naw sefydliad at ei gilydd i rannu eu gwaith dros dair blynedd. Roedd y partneriaid yn wahanol iawn a daethant at ei gilydd oherwydd eu natur agored i syniadau newydd yn hytrach na'u strwythurau neu amcanion cyffredin. Roedd chwech ohonynt wedi'u lleoli mewn ardal, er bod yr ardaloedd yn amrywio o un pentref bach i ddau gwm hir. Gweithiodd dau gyda chymunedau o ddiddordeb cyffredin: gofalwyr a'r gymuned ffermio. Roedd dau yn canolbwyntio'n bennaf ar gynnis hyfforddiant a dysgu. Roeddent wedi'u gwasgaru ledled Cymru gyda thri phartner yn dod o ardal chwareli Llechi Gwynedd (Llechi); tri o feysydd glo

¹<https://talwrn.org.uk/cy>

hanesyddol De Cymru (Glo); a thri wedi'u lleoli ym mro amaethyddol Powys, Ceredigion a Sir Benfro (Cefn Gwlad).

Cafodd yr arweinwyr cymunedol i gyd eu cyflogi er mwyn helpu'r partneriaid i adeiladu ar eu cysylltiadau cymunedol a chefnogi economi sylfaenol yn y gymuned. Cafodd eu rolau eu cyllido drwy raglen Time to Shine Sefydliad Rank a daeth cyllid ychwanegol i ddatblygu gwaith partneriaeth o raglen Cefnogi Syniadau Gwych Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Rydym wedi rhoi cynnig ar lawer o gynlluniau, ond dyma'r gorau. Mae wedi dangos gwerth rhwydweithio a datblygodd fodel pwysig ar gyfer cefnogi pobl leol i ddatblygu yn y gymuned. Ceri Cunningham, CBFf

Canfyddiadau Allweddol

Mae gweithio mewn partneriaeth bob amser yn gwneud synnwyr mewn theori ond yn ymarferol, ymhlith sefydliadau bach, gall fod yn anodd iawn blaenoriaethu'r amser sydd ei angen. Gweithiodd y bartneriaeth i Llechi, Glo a Chefn Gwlad oherwydd:

- cafodd rheolwyr eu cyllido i roi amser i'r bartneriaeth felly roedd yn haws cyfiawnhau neilltuo amser iddi;
- roedd y partneriaid yn cymryd rhan oherwydd eu bod eisiau gwneud hynny (h.y. roeddent wedi optio i mewn) ac yn mynd at y gwaith gyda chwilfrydedd a natur agored (<https://youtu.be/KiGUhyLICyA>);
- digwyddodd y prosiect mewn cyfnod o argyfwng (y pandemig) a newid. Roedd angen y cymorth cymheiriaid a'r syniadau a oedd yn nodweddiadol o'r gwaith ar bob partner ac roeddent yn gwerthfawrogi hyn;
- nid oedd cystadleuaeth rhyngddynt na rhesymau dros fod yn amddiffynnol am ein gwaith – roedd y ffaith nad oedd partneriaid yn gweithio yn yr un ardal na maes, yn rhoi'r rhyddid i fod yn gwbl agored a dysgu oddi wrth ei gilydd; ac
- roedd y partneriaid i gyd yng Nghymru ac felly roeddent yn rhannu hunaniaeth gyffredin – hunaniaeth a ddaeth i'r amlwg a thyfu'n gryfach wrth i'r bartneriaeth ddatblygu.

Isod ceir crynodeb o agweddau ac effeithiau allweddol y gwaith.

Mater	Camau	Canlyniad	Effaith
<p>Gall canolbwyntio ar ddarparu prosiect fod yn rhwystr i sefydliadau wrth fod yn rhan o'r gymuned a deall anghenion sy'n dod i'r amlwg.</p>	<p>9 partner – 3 o Ogledd Cymru, 3 o Dde Cymru a 3 o Ganolbarth Cymru</p> <p>Gwnaeth pob partner gyflogi aelod o'r gymuned am 12 mis, wedi'i ailadrodd dros 3 blynedd, i adeiladu rhwydweithiau newydd, creu dealltwriaeth newydd a datblygu sgiliau lleol</p>	<p>27 o bobl â hyfforddiant a phrofiad o weithio gyda'u cymuned. O'r rhain, mae 21 yn dal i weithio gyda'u cymuned yn gyflogedig neu'n wirfoddol.</p> <p>Meysydd newydd o waith a ddatblygwyd gan bob partner gyda chyfranogiad cymunedol.</p>	<p>Mae pob partner wedi cyflogi o leiaf un o'r arweinwyr cymunedol fel staff neu weithwyr sesiynol.</p> <p>Mae pob partner wedi newid sut y mae'n gweithio yn y 3 blynedd diwethaf ac mae pedwar partner yn bwriadu parhau i recriwtio aelodau o'r gymuned fel gweithwyr dan hyfforddiant.</p>
<p>Roedd y pandemig wedi tarfu ar gymunedau a'u niweidio a rhoddodd sefydliadau gwirfoddol a chymunedol o dan fygythiadau nad oeddent wedi eu hwynebu yn y gorffennol</p>	<p>Gweithiodd y partneriaid gyda'i gilydd, gan gyfarfod yn wythnosol i rannu profiadau, rhoi syniadau a datblygu ffyrdd effeithiol o gefnogi eu cymunedau.</p>	<p>rhannwyd syniadau ar adnoddau a chyllid</p> <p>cefnogaeth a her gan gymheiriaid</p> <p>rhannwyd yr hyn a ddysgwyd am ddulliau a 'brofwyd'</p> <p>codi uchelgais a dealltwriaeth o'r hyn sy'n bosibl</p> <p>cysylltu datblygiad amgylcheddol, iechyd, cymdeithasol ac economaidd</p>	<p>modelau newydd o weithio sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael ag ynysigrwydd cymdeithasol ac ofn rhyngweithio</p> <p>rheolwyr wedi magu hyder a dealltwriaeth</p> <p>roedd pob partner wedi ehangu ei waith; roedd pedwar wedi buddsoddi mewn adeiladau a/neu dir; roedd pedwar wedi buddsoddi mewn cerbydau trydan</p>

<p>Mae gan Gymru ddiffyg hyfforddiant datblygu cymunedol sy'n hygyrch i aelodau o'r gymuned</p>	<p>Comisiynwyd Sylfaen Cymunedol Cyf. i ddatblygu a threialu, ac yna mynd ati i gynnal cwrs datblygu cymunedol ar-lein.</p>	<p>Roedd pob partner wedi cynorthwyo staff i fynd ar y cwrs, wedi'i achredu gan Agored.</p> <p>Gwnaed hyfforddiant ar gael hefyd ym maes iechyd meddwl a gweithio gyda grwpiau agored i niwed wrth i'r cymunedau weld anghenion yn cynyddu</p>	<p>Cwrs wedi'i achredu a'i ddatblygu'n llawn gyda chynlluniau i'w gyflwyno ledled Cymru.</p>
<p>Pobl leol sydd â'r mwyaf i'w ennill (a'i golli) o economi leol gref ond yn anaml y mae ganddynt unrhyw reolaeth na llais dros yr hyn sy'n digwydd yn lleol.</p>	<p>Canolbwyntiodd y partneriaid ar gefnogi'r economi leol boed hynny'n fenter gymunedol neu gymdeithasol, busnesau a chynhyrchwyr bach lleol, datblygu sgiliau neu weithredu cymunedol</p>	<p>Roedd busnesau bach a mentrau cymdeithasol yn gallu cael mynediad at safleoedd (ar y stryd fawr ac ar-lein); rhoddwyd cymorth i adeiladu cynaliadwyedd (personol a busnes); roedd cymorth a mynediad at hyfforddiant wedi adeiladu sgiliau newydd ac ehangu sgiliau presennol gan arwain at fenter gymdeithasol newydd a phobl yn cymryd rheolaeth (e.e. gofalwyr yn darparu eu seilwaith cymorth eu hunain)</p>	<p>Roedd y partneriaid wedi newid y ffordd roeddent yn gweithio i ganolbwyntio mwy ar gefnogi gweithredu cymunedol.</p> <p>Datblygodd syniadau menter newydd.</p> <p>Mwy o hyder y gymuned</p>

Beth ddigwyddodd

Cymuned o bartneriaid

Roedd aelodau'r bartneriaeth wedi'u gwasgaru ledled Cymru ond roedd cyfarfodydd prosiect wythnosol ar-lein yn fodd o ddatblygu cymuned o bartneriaid. Cymerodd y cyfarfodydd ar-lein, ar gyfartaledd, awr ac roedd ganddynt swyddogaeth hyfforddi, gan fod angen i'r holl arweinwyr cymunedol gyflwyno eu gwaith i gydweithwyr.

Roedd y cyfarfodydd hefyd yn darparu proses cymorth a datblygu 'amser real', gan alluogi pobl i ofyn am gymorth, profi syniadau, gwyntyllu rhwystredigaethau a dathlu llwyddiannau. Helpodd y pandemig y dull hwn oherwydd bod llawer o bartneriaid y flwyddyn gyntaf a rhai o'r ail flwyddyn yn gyfyngedig o ran pa waith y gallent ei wneud yn y gymuned, gan eu galluogi i flaenoriaethu cyfarfodydd y rhaglen. Daeth yn fwy anodd cynnal y strwythur cyfarfod wythnosol pan oedd yn bosibl gwneud mwy o waith cymunedol.

Roedd y cyfarfodydd rheolaidd a sesiynau preswyl Sefydliad Rank (gweler isod) wedi galluogi'r arweinwyr cymunedol i ddod i adnabod ei gilydd a gwnaethant ffurfio eu rhwydwaith cymorth eu hunain bob blwyddyn. Gwnaethant gwrdd yn annibynnol a sefydlu grwpiau cyfryngau cymdeithasol ac mae llawer yn parhau i gadw mewn cysylltiad.

Er eu bod yn effeithiol oherwydd eu hamlder, mae gan gyfarfodydd ar-lein gyfyngiadau ac felly cawsant eu hategu gan ymweliadau partneriaeth a oedd wedi galluogi pobl i ddysgu'n fanylach am yr hyn yr oedd eraill yn ei wneud a'i effaith.

Roedd pandemig COVID-19 wedi cyfyngu ymweliadau i ail hanner y rhaglen.

Ymwelwyd â phartneriaid De Cymru (Glo) ym mis Medi 2021; partneriaid Gogledd Cymru (Llechi) ym mis Mai 2022; a phartneriaid Powys a Cheredigion (Cefn Gwlad) ym mis Tachwedd 2022.

Cyfnod o newid

Roedd y naw partner wedi mynd at y rhaglen gyda natur agored a chwilfrydedd ac roedd hyn wedi galluogi i'r rhaglen ddatblygu. Roedd angen elfen o ffydd ar y dechrau gan nad oedd yn glir beth fyddai'r bartneriaeth yn ei gyflawni ac felly roedd cael cyllid gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i gefnogi'r amser yr oedd ei

angen ar bartneriaid i'w neilltuo i adeiladu a chynnal y bartneriaeth yn bwysig. Ni all partneriaid golli golwg ar y ffaith bod yn rhaid i'w hadnoddau gael eu neilltuo i gefnogi eu cymuned, dyna yw eu diben. Felly, mae neilltuo amser ac adnoddau i unrhyw beth ychwanegol i'r gwaith craidd yn gofyn am resymeg a chanlyniad clir iawn. Mewn rhaglen fel Llechi, Glo a Chefn Gwlad, lle mae angen i'w defnyddioldeb ddatblygu, roedd cael adnoddau i gwmpasu'r amser a dreuliwyd yn rhoi'r cyfiawnhad i'r partneriaid gymryd risg.

Aeth y partneriaid drwy gyfnod o newid enfawr dros y tair blynedd yr oeddent yn rhan o Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Cafodd rhai o'r newidiadau hyn eu gorfodi arnynt gan y pandemig a/neu newid o ran blaenoriaethau cyllid ond roedd eraill yn fwy cadarnhaol. Roedd pob un wedi profi'r niwed a wnaed gan y pandemig i'w cymuned a'r newidiadau a ddaeth yn ei sgil, y mae rhai ohonynt yn barhaol. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o bartneriaid eisoes yn datblygu mewn ffyrdd amrywiol pan wnaethant ymuno â'r bartneriaeth ac mae pob un wedi newid dros y tair blynedd diwethaf. Mae'r bartneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi bod yn dyst i'r daith y mae pob un yn ei chymryd, wedi darparu cymorth o dan arweiniad cymheiriaid, a rhannu heriau a syniadau. Mae hyn yn dadlau bod, o bosibl, yna gyfnodau yn ystod oes grŵp neu sefydliad pan fydd gwaith partneriaeth o'r fath yn arbennig o werthfawr.

Y Gymraeg

Mae tri phartner yn gweithio'n bennaf drwy'r Gymraeg, mae gan un gymysgedd ac mae pum partner yn gweithio'n bennaf neu'n gyfan gwbl drwy'r Saesneg. Roedd hyn yn creu goblygiadau sylweddol i'r partneriaid Cymraeg oherwydd roedd yn rhaid i iaith y rhaglen ar gyfer cyfarfodydd a gohebiaeth fod yn Saesneg yn bennaf. Roedd digwyddiadau, adroddiadau a sesiynau gwerthuso yn ddwyieithog ond ni chafodd y mater mai, mewn grŵp cymysg, yr iaith ddiodyn yw Saesneg ei ddatrys ac roedd hyn yn anfantais i bartneriaid cyfrwng Cymraeg.

I'r gwrthwyneb, roedd budd enfawr i'r partneriaid cyfrwng Saesneg yn bennaf gan eu bod wedi dysgu cymaint am y Gymraeg a'i diwylliant ac mae wedi effeithio ar eu dull. Dechreuodd o leiaf pedwar o bobl (rheolwyr ac arweinwyr cymunedol) wersi Cymraeg wrth i'r rhaglen ddatblygu, gyda thri arall yn datblygu eu sgiliau fel dysgwyr Cymraeg. Yn ogystal, roedd tri arweinydd cymunedol a oedd wedi'u haddysgu drwy'r

Gymraeg ond heb ddefnyddio'r iaith ers yr ysgol wedi canfod bod y rhaglen wedi rhoi'r cyd-destun iddynt ddechrau defnyddio eu Cymraeg eto.

Mae Llechi, Glo a Chefn Gwlad yn cynnig model defnyddiol ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg i sefydliad sy'n gweithio yn Saesneg fel y dangosir gan nifer y partneriaethau sy'n parhau i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, roedd y rhaglen yn eithriadol o ffodus o gael partneriaid a oedd yn barod i gyfathrebu yn Saesneg â phartneriaid ond y mae eu hymrwymiad i'r Gymraeg a'i diwylliant yn golygu eu bod yn sicrhau bod yr iaith bob amser yn bresennol ac yn cael ei gwerthfawrogi.

Buddsoddi mewn arweinyddiaeth gymunedol

Cafodd yr arweinwyr cymunedol gynnig rhaglen ddatblygu sylweddol pan oeddent ar y prosiect. Yn dibynnu ar eu cefndir a chanolbwynt eu gwaith, roedd rhai wedi manteisio ar bopeth a oedd ar gael ac roedd eraill wedi dewis y pethau a oedd yn berthnasol iddyn nhw. Darparodd Sefydliad Rank (a ariannodd y rolau) dri digwyddiad dysgu preswyl yn ystod y flwyddyn yr oeddent yn cael eu cyflogi (er bod y pandemig wedi tarfu ar y rhain ym mlynnyddoedd un a dau fel bod rhai'n gorfod bod ar-lein). Galluogodd y digwyddiadau i'r arweinwyr gwrdd â phobl o gymunedau eraill gan gynnwys partneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad, a thu hwnt. Cynhaliodd hyfforddwyrs sesiynau ar bynciau fel deall arddulliau dysgu, siarad cyhoeddus a chyflwyniadau. Roedd y digwyddiad terfynol bob blwyddyn yn galluogi'r dysgwyr i gyflwyno eu gwaith i gynulleidfa fawr.

Yn ogystal, rhoddodd Sefydliad Rank raglen Set Dysgu Gweithredol strwythuredig a roddodd gyfle i'r arweinwyr cymunedol ddysgu technegau ar gyfer trafod materion yn eu cymuned. Cafwyd bod dull yr arweinydd set Dysgu Gweithredol yn hanfodol i lwyddiant y sesiynau hyn a, phan oeddent yn gweithio, roeddent yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr. Roedd Sefydliad Rank hefyd wedi darparu rhaglen fwrsari lle gallai arweinwyr cymunedol wneud cais am hyd at £1500 o gyllid i ddilyn cwrs a allai eu helpu yn y dyfodol. Ymhlith yr enghreifftiau o'r hyfforddiant a gafwyd drwy hyn roedd defnyddio cyfryngau cymdeithasol, sesiynau Cymraeg dwys, marchnata, garddwriaeth a chynhyrchu cerddoriaeth.

Comisiynodd partneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad Sylfaen Cymunedol Cyf. i ddatblygu a chyflwyno cwrs cyflwyniad i ddatblygu cymunedol ar gyfer y rhaglen. Roedd holl arweinwyr cymunedol a gweithwyr cymunedol y partneriaid yn gallu ymuno â'r cwrs ar-lein. Cynhelir y cwrs dros 21 wythnos ac mae wedi'i achredu gan Agored Cymru gyda Dyfarniad Cyfranogiad Pobl Ifanc Lefel 2 a Dyfarniad Datblygu Cymunedol Lefel 2. Cwblhaodd 29 o weithwyr cymunedol y cwrs (mae adroddiad ar y cwrs gydag adborth gan gyfranogwyr wedi'i gynnwys yn yr atodiad). Gwnaeth y bartneriaeth hefyd gomisiynu Sylfaen i edrych ar sut y gallai'r rhaglen gael ei chyflwyno ledled Cymru a'i chyflawni gan hyfforddwyr achrededig mewn sefydliadau cymunedol.

Yn ogystal, ac mewn ymateb i effaith y pandemig yn cael ei phrofi gan bartneriaid, cyllidodd y rhaglen 21 o weithwyr cymunedol i wneud y cymhwyster Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a gyflwynir drwy Weithdai DOVE a 32 o weithwyr cymunedol i wneud cwrs hyfforddi 'Sgyrsiau â Phobl Agored i Niwed' a gyflwynir gan y Samariaid.

Y partneriaid a'u gwaith

Tir Dewi

Sefydlwyd Tir Dewi yn 2015 gan Archddiacon Aberteifi i gynorthwyo teuluoedd ffermio sy'n wynebu cyfnod anodd. Mae Tir Dewi yn cynnig cymorth dros y ffôn neu drwy ymweliadau â ffermydd gan ymwelwyr a all helpu ffermwyr i fynd i'r afael ag argyfyngau a chynllunio ymlaen llaw.

Fel llawer o bartneriaid eraill, mae Tir Dewi wedi tyfu dros y tair blynedd. Yn 2020, roedd gan yr elusen ddau aelod o staff rhan-amser a throsiant o £36,000. Erbyn diwedd 2022 roedd wedi tyfu i ddau aelod o staff amser llawn a chwe aelod o staff rhan-amser a throsiant o £300,000. Mae nifer y gwirfoddolwyr sy'n cymryd rhan wedi tyfu o 20 i 70 ac mae wedi ehangu'r meysydd y gall eu cwmpasu yn sylweddol. Ar gyfartaledd, mae Tir Dewi bellach yn ymdrin â 350 o achosion o gymorth ar gyfer teuluoedd sy'n ffermio ac mae'r rhan fwyaf yn cynnwys o leiaf pedwar o bobl. Fel gyda'r rhan fwyaf o bartneriaid eraill, roedd Tir Dewi ar drywydd i ddatblygu pan ymunodd â Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Rôl y bartneriaeth oedd helpu'r datblygiad hwnnw nid ei greu ond mae'r model arweinydd cymunedol wedi bod yn ffactor galluogi allweddol.

Pan ymunodd yr elusen â Llechi, Glo a Chefn Gwlad roedd am ehangu ei rôl y tu hwnt i ardal Dyfed i Bowys a chafodd ei harweinydd cymunedol cyntaf, Elin (2020), ei recriwtio i gysylltu â theuluoedd sy'n ffermio ym Mhowys a nodi a oeddent yn gweld yr angen am Tir Dewi ac, oes oeddent, beth oedd yr angen hwnnw. Wrth i'r pandemig daro, roedd yn rhaid i'w gwaith fynd ar-lein ond cafwyd ymateb da gan deuluoedd sy'n ffermio i'r arolygon a anfonwyd ganddi. Yn ystod y flwyddyn honno, dechreuodd Tir Dewi weithio ym Mhowys, yna ychwanegodd Gŵyr a Gogledd Cymru. Mae Elin yn parhau i ffermio gyda'i theulu.

Roedd y pandemig yn golygu bod angen i sefydliadau ddatblygu ffyrdd newydd o weithio gyda phobl a gwella eu gwasanaethau digidol. Helpodd yr ail arweinydd cymunedol, Megan (2021), i ddatblygu presenoldeb Tir Dewi ar-lein ac yn y cyfryngau a gwella cyfathrebu digidol ymhlith y staff a thimau gwirfoddolwyr. Mae bellach yn gweithio i elusen i blant.

Daeth y trydydd arweinydd cymunedol, Llinos (2022), ag amrywiaeth eang o brofiad i'r rôl, yn broffesiynol ac fel rhan o'r gymuned ffermio. Mae ei gwaith wedi galluogi Tir Dewi i ddatblygu'n gyflym yng Ngogledd Cymru a chodi proffil y gwaith ledled Cymru. Cyfrannodd ei gwaith yn uniongyrchol at gynnydd mewn achosion o atgyfeirio a hunanatgyfeirio o Ogledd Cymru ac i Tir Dewi yn ennill dwy wobwr (Gwobr Gwasanaeth Cymunedol gan Uchel Siryf Gwynedd a Gwobr Gwasanaethau i Ffermio gan yr FUW) a sefydlu'r sail ar gyfer partneriaeth bosibl gydag Ymddiriedolaeth Iechyd Betsi Cadwaladr. Cafodd Llinos ei gwahodd i fod yn rhan o grŵp Llywodraeth Cymru ar amaethyddiaeth a chyfrannu at sesiwn yn yr Eisteddfod Genedlaethol ar iechyd meddwl ym myd amaeth. Mae Llinos wedi derbyn swydd barhaol gyda Tir Dewi.

DOVE

Fel gyda phartneriaid eraill, mae DOVE wedi mynd drwy gyfnod o newid sylweddol a rhai heriau difrifol dros y tair blynedd diwethaf. Mae DOVE wedi bod yn ganolfan addysg oedolion ers bron 40 mlynedd, gan ddarparu cyfle lleol i bobl o amgylch Banwen a Chwm Dulais i ddysgu sgiliau newydd. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth yn y ganolfan yn cael ei chynnal gan ddarparwyr allanol ond mae DOVE hefyd yn cynnal rhai o'u rhaglenni eu hunain, gan gynnwys un sy'n cynorthwyo pobl â heriau iechyd meddwl, sef prosiect a dyfodd mewn pwysigrwydd yn ystod y pandemig. Mae'r feithrinfa ddydd ar y safle wedi rhoi'r cyfle i bobl leol adael eu plant mewn lle diogel wrth iddynt ddysgu neu weithio ac roedd yr ail arweinydd cymunedol, Lewis, yn un o'r plant cyntaf i fynychu'r feithrinfa. Erbyn 2022, roedd y feithrinfa wedi adfer ac roedd ganddi 35 o blant ac, am y tro cyntaf, roedd yr holl staff, gan gynnwys prentis, o Gwm Dulais. Roedd caffi ar y safle yn cael ei brydlesu gan DOVE i fusnes lleol ychydig flynyddoedd yn ôl pan nodwyd nad oedd ei redeg fel menter gymdeithasol yn hyfyw ac mae bellach yn ffynnu.

Hyd yn oed cyn y pandemig, roedd DOVE yn wynebu heriau, ar ôl gweld ei incwm yn haneru o ddarpariaeth addysg. Mae prif fodel DOVE wedi bod fel lleoliad i ddarparwyr addysg i'w ddefnyddio ar gyfer eu cyrsiau ond mae'r pandemig a symudiad ar ôl y pandemig i gadw llawer o gyrsiau ar-lein wedi gorfodi newid i'r

model hwnnw. Yn ogystal, am y tro cyntaf mewn dros 30 mlynedd, wynebodd DOVE newid mewn arweinyddiaeth a phenodwyd rheolwr newydd yn 2022 ar ôl chwilio hir.

Mae'r arweinwyr cymunedol wedi'u galluogi i ystyried ffyrdd newydd o weithio yn y gymuned. Mae'r arweinydd cymunedol cyntaf, Leighton (2020) wedi cychwyn arni drwy sefydlu sesiynau TG i blant a phobl ifanc mewn ystafell TG newydd ei hariannu pan darodd y pandemig. Roedd ei gefndir ym maes ffilmiau wedi'i alluogi i greu ffilmiau a chyfweliadau lleol i roi newyddion cadarnhaol a delweddau o'r awyr agored i bobl y gallent gael gafael arnynt yn hawdd. Yn ddiweddar mae wedi dechrau gweithio gydag adran cyfryngau Cyngor Castell-nedd Port Talbot.

Roedd Lewis (2021) yn gallu gwneud gwaith yn yr awyr agored i ddiogelu'r amgylchedd lleol ac, wrth i'r cyfyngiadau lacio, roedd modd iddo gynnwys pobl mewn grwpiau cerdded a phrosiectau amgylcheddol, gan gynnwys cefnogi'r grŵp rhandiroedd a oedd wedi cymryd cyfrifoldeb am dir a sicrhawyd gan DOVE i dyfwyr lleol ac adnewyddu tŷ crwn ar gyfer gweithgareddau cymunedol. Ar ddiwedd ei flwyddyn, cafodd Lewis ei gyflogi gan y cyngor cymuned fel warden cefn gwlad.

Angie oedd yr arweinydd cymunedol olaf (2022) a chymerodd yr awenau ar gyfer y gwaith yr oedd Lewis wedi bod yn ei wneud yn yr awyr agored a'i ddatblygu ymhellach drwy ddefnyddio model Ysgol Goedwig. Gweithiodd gyda phlant a'u teuluoedd. Mae'r clwb garddio ar ôl ysgol Flower Pots ar gyfer plant 6-12 oed ac mae ganddo bedwar gwirfoddolwr sy'n cynnig eu sgiliau. Erbyn mis Mehefin 2022 roedd 40 o blant yn cymryd rhan yn Flower Pots bob wythnos a 15 arall ar y rhestr aros. Gwahoddodd Angie yr athrawon o'r ysgol leol i weld beth oedd yn digwydd a daeth pob un o'r 20, ac yna cafodd ei gwahodd yn ôl i'r ysgol i siarad am wenyng. Gwnaeth Angie hefyd ddechrau gweithio gyda grŵp o wyth disgybl ag anghenion dysgu ychwanegol a oedd yn cael anhawster yn yr ysgol uwchradd.

Gweithiodd Angie hefyd gyda phobl hŷn yn lleol gan ddarparu sesiynau am ddim iddynt i fynd ar-lein a sefydlu gweithgareddau i'r teulu cyfan fel grwpiau cerdded ar ddydd Sul gyda phaned o siocled poeth ar y diwedd yn y tŷ crwn. Mae DOVE yn ceisio cyllid i gadw Angie i weithio gyda nhw ac yn y cyfamser, mae'n cynnal rhai sesiynau gyda nhw ac yn ystyried opsiynau hunangyflogaeth.

Tir Coed

Mae Tir Coed yn elusen sy'n gweithio ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys gan gynnig gweithgareddau hyfforddiant awyr agored, dysgu a llesiant i gysylltu pobl â'r tir a'r coed. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi symud o fod yn ddarparwr hyfforddiant gwaith coed a choedwigaeth i ddatblygu dull ehangach sy'n cynnwys rheoli tir, sgiliau tyfu a garddio trefol ac mae wedi bod yn profi ffyrdd newydd o weithio gyda phobl. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Tir Coed wedi wynebu rhai heriau a newidiadau mawr. Roedd y pandemig yn golygu bod ei fodel o waith wyneb yn wyneb yn yr awyr agored wedi cael ei ohirio am gyfnod ac roedd argyfwng cyllid o ganlyniad i hynny wedi bygwth ei fodolaeth ar un adeg. Roedd newid mewn arweinyddiaeth yn golygu ad-drefnu strwythur y sefydliad. Fodd bynnag, mae'r elusen wedi dod i'r amlwg yn gryf a chyda phwyslais o'r newydd ar ei rôl gymunedol.

Cafodd y cynlluniau ar gyfer blwyddyn gyntaf y prosiect eu gwrthdroi gan y pandemig. Roedd Isabel (2020) wedi bod yn cynllunio i weithio gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i ddatblygu rhwydweithiau gyda Tir Coed a datblygu ei rôl ym maes rheoli tir. Fodd bynnag, roedd hefyd yn rhedeg siop bentref a phan darodd y pandemig daeth hynny'n adnodd allweddol ar gyfer yr ardal leol a chafodd gymorth Tir Coed i ddarparu gwasanaeth angenrheidiol i gymuned wledig. Mae wedi mynd ymlaen i ddatblygu ei busnes ac mae'n actifydd cymunedol gref.

Canolbwyntiodd yr ail arweinydd cymunedol, Eleri (2021) ar helpu Tir Coed i gyfathrebu'n effeithiol â phobl sy'n ymwneud â'u gweithgareddau a deall effaith eu gwaith. Gweithiodd gyda chyfranogwyr y cwrs i ddatblygu offer gwerthuso a monitro a oedd yn gwneud synnwyr iddynt ac yr oeddent yn gyfforddus yn eu defnyddio. Roedd y rhain yn cynnwys offer ar gyfrifiadur llechen ac ar bapur. Mae Eleri bellach yn dilyn PhD.

Gweithiodd y trydydd arweinydd cymunedol Vik (2022) ar astudiaeth ddichonoldeb Antir a drafododd yr angen lleol am weithwyr tir a'r sgiliau y byddai eu hangen arnynt a'r opsiynau ar gyfer gwaith tyfu ac adfywio tir ehangach. Datblygodd y gwaith bartneriaethau a rhwydweithiau lleol a roddodd gysylltiadau newydd i Tir Coed â chymunedau lleol a'u galluogi i recriwtio dros 200 o bobl i gyrsiau a rhaglenni drwy'r rhwydweithiau hyn. Daeth Vik ag angerdd am y gymuned i Tir Coed, gan wneud

pethau i ddigwydd yn y sefydliad a'r tu allan iddo. Cafodd gynnig swydd gyda Tir Coed ond penderfynodd ddatblygu ei busnes garddwriaeth ei hun, er y bydd yn parhau i weithio ar sail sesiynol gyda Tir Coed.

Gofalwyr Credu

Mae Gofalwyr Credu yn elusen sy'n cefnogi gofalwyr ym Mhowys. Mae hefyd yn rhedeg Gofalwyr Ceredigion a WCD, rhaglen gymorth i ofalwyr ifanc yn Wrecsam, Conwy a Sir Ddinbych. Dros nifer o flynyddoedd, mae Credu wedi bod yn datblygu model dan arweiniad y gymuned, gan symud ei ffocws o gynnig dewislen o wasanaethau i ofalwyr i adeiladu seilwaith cefnogol a all addasu i anghenion gofalwyr unigol a chefnogi cymunedau gofalgar. Mae Credu wedi defnyddio'r rhaglen arweinyddiaeth gymunedol yn Llechi, Glo a Chefn Gwlad i archwilio a threialu modelau arloesol o gynorthwyo gofalwyr i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

Yn 2020, ymunodd Mandy, rhiant-ofalwr y mae gan ei phlentyn anghenion cymhleth, â Credu fel yr arweinydd cymunedol cyntaf gyda Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Ei rôl oedd datblygu dull seiliedig ar gymuned neu le o gynorthwyo gofalwyr yn ei phentref ei hun. Tarfodd y pandemig ar y gwaith ar ôl dechrau gwych a throdd Mandy ei sylw at ffyrdd o gefnogi gofalwyr ar-lein wrth i'r cyfnodau clo dynnu eu rhwydweithiau cymorth. Aeth ymlaen i fod yn aelod allweddol o dîm Credu tra hefyd yn datblygu ei syniadau ei hun ynghylch cynorthwyo rhieni plant ag anghenion lluosog. Ar ddiwedd 2022, roedd hefyd yn gweithio i Cyswllt Teulu, gan roi rhwydwaith eang iddi o ddylanwad i gynorthwyo gofalwyr.

Yn 2021, cyflogwyd Aidan yn arweinydd cymunedol. Roedd Aidan wedi bod yn ofalwr ers ei blentyndod ac roedd yn gwybod pwysigrwydd sicrhau bod gofalwyr ifanc yn dod o hyd i amser i chi eich hun a bod yng nghwmni pobl ifanc eraill a oedd yn deall sut beth oedd gofalu. Cynigiodd ddatblygu clwb gemau i ofalwyr ifanc a fyddai'n eu galluogi i greu cymuned ar-lein y gellid ei chynnwys mewn rôl ofalu. Ymunodd dros 30 o ofalwyr ifanc â'r grŵp yn y flwyddyn. Aeth Aidan ymlaen i ddod o hyd i gyflogaeth yn rheoli tafarn.

Yn 2022, roedd Credu am archwilio'r model seiliedig ar le o gynorthwyo gofalwyr ymhellach a chyflogwyd Bryony i ddatblygu eu gwaith yn y Trallwng. Creodd sawl ffordd i ofalwyr yn yr ardal ymgysylltu â Credu ar eu telerau eu hunain ac ar eu

cyflymder eu hunain. Mae hyn wedi arwain at lawer o ofalwyr yn dod o hyd i gyfeillgarwch a chylchoedd cymorth newydd ar gyfer eu rôl ofalu drwy gyfarfodydd grŵp. Mae hefyd wedi datblygu partneriaethau cryf ag elusennau a sefydliadau lleol eraill sy'n helpu Credu i fod yn fwy gweladwy wrth adeiladu grŵp o wirfoddolwyr, y mae llawer ohonynt yn ofalwyr hefyd.

Mae'r interniaeth wedi galluogi Credu i arbrofi â chanolbwyntio ar ddatblygu cymunedol wrth i'r tîm presennol allu parhau â'u galwadau cynyddol ar waith achos. Canlyniad hyn fu cynnydd enfawr mewn ymgysylltu gan ofalwyr ond wedi'i wneud mewn ffordd a oedd yn golygu mai dim ond ychydig iawn o gost ychwanegol oedd i'n sefydliad.

Mae'r dysgu o'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio gan Credu i estyn allan i gymunedau eraill i ddatblygu cymorth i ofalwyr.

Partneriaeth Ogwen

Mae Partneriaeth Ogwen yn fenter gymdeithasol a sefydlwyd er budd economi, amgylchedd a chymunedau Dyffryn Ogwen yng Ngwynedd. Mae'n gweithredu fel clerc i'r tri chynghor cymunedol yn y dyffryn, yn derbyn ac yn rheoli asedau lleol ac yn rhedeg rhaglenni i ddatblygu a chynnal cymunedau iach a bywiog, gan gynnwys hyrwyddo diwylliant lleol a'r Gymraeg.

Dros dair blynedd prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad, bu'r datblygu economaidd cymunedol yn Ogwen yn sylweddol. Yn ystod y pandemig gwelwyd lansiad Cadwyn Ogwen, sef safle marchnata a gwerthiannau ar-lein i gynhyrchwyr lleol a wnaeth ddyblu o ran trosiant rhwng 2020 a 2022. Yn yr un modd, mae trosiant Partneriaeth Ogwen wedi mwy na dyblu yn yr amser hwn. Mae rhaglenni fel Dyffryn Gwyrdd wedi defnyddio dull ymarferol o ran cynaliadwyedd, gan gynnwys sicrhau bod cerbydau a beiciau trydan ar gael i'r gymuned ac i dwristiaid, datblygu rhandiroedd a gerddi cymunedol a rhaglen gyfeillio. Gwnaeth yr arweinwyr cymunedol hefyd chwarae rhan gref wrth hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol lleol fel murlun, gardd gymunedol a dathlu'r Dywysoges Gwenllian.

Roedd Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi ein galluogi i ehangu ein gorwelion. Rhoddodd y lle meddyliol a'r amser i ni drafod ein gwaith gyda phartneriaid o'r un meddylfryd. Cododd fy hyder fel rheolwr a darparu grŵp cymheiriaid i rannu pryderon a syniadau â nhw. Wrth i'r gwaith fynd yn fwy prysur ar ddiwedd y pandemig, daeth yn anodd diogelu'r amser ar gyfer cyfarfodydd. Mel Davies, Prif Swyddog

Helpodd yr arweinydd cymunedol cyntaf i ddatblygu Siop Ogwen, sef siop llyfrau a chrefftau ar y Stryd Fawr sy'n eiddo i Bartneriaeth Ogwen. Yn ystod cyfnod clo cyntaf COVID-19 roedd yn rhaid i'r siop gau a datblygodd Fflur (2020) rôl gymunedol, gan siopa ar ran pobl na allent fynd allan a chasglu presgripsiynau. Wrth i'r gweithgarwch ddechrau eto dechreuodd weithio gydag ysgolion lleol i hyrwyddo Diwrnod y Llyfr a chynnwys pobl ifanc i ddatblygu murlun ym Methesda. Mae Fflur bellach yn gweithio'n lleol fel gweithiwr gofal ac mae hefyd yn arweinydd yn y clwb ieuencid lleol.

Datblygodd y pandemig bwysigrwydd siopa ar-lein ac roedd Partneriaeth Ogwen yn awyddus i sicrhau y gallai cynhyrchwyr lleol gael gafael ar y ffordd hon o werthu eu nwyddau, yn enwedig pan oedd gwerthiannau mwy traddodiadol wedi diflannu. Gweithiodd yr ail arweinydd cymunedol, Lucinda (2021), i adeiladu sylfaen cwsmeriaid ar gyfer Cadwyn Ogwen a system archebu ar-lein sy'n sicrhau bod cynnyrch lleol ar gael i'r gymuned. Mae'r archebion yn cael eu danfon mewn fan drydan. Dros yr haf, roedd Lucinda hefyd yn gallu hyrwyddo'r cynnyrch lleol i dwristiaid a fu'n ymweld ag Ogwen. Mae Lucinda wedi parhau i gael ei chyflogi gan Bartneriaeth Ogwen gan weithio gyda chynhyrchwyr bwyd lleol a'r banc bwyd. Yn 2023 dechreuodd rôl newydd fel gweithiwr lleddfu tlodi.

Gweithiodd y trydydd arweinydd cymunedol, Lowri (2022), ar ddatblygu deunydd hyrwyddol ar gyfer yr ardal, gan gynnwys ffilmiau byr ar raglenni a busnesau lleol a hyrwyddo digwyddiadau diwylliannol. Aeth ymlaen i ddod o hyd i'w swydd 'berffaith' yn gweithio i gylchgrawn Golwg 360 gan ysgrifennu erthyglau ac mae'n parhau i wirfoddoli ar gyfer Partneriaeth Ogwen.

Cwmni Bro Ffestiniog

Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn sefydliad ambarél sy'n gweithio i gynorthwyo mentrau cymunedol ym Mlaenau Ffestiniog a'r ardal gyfagos. Ei nod craidd yw gweld mentrau lleol cryf sy'n cynorthwyo'r gymuned a datblygu economaidd, amgylcheddol, diwylliannol, cymdeithasol ac addysgol yr ardal. Dros y tair blynedd diwethaf mae rhwydweithiau Cwmni Bro Ffestiniog wedi tyfu ac mae llawer o waith ar y cyd wedi'i gynllunio gyda phartneriaid eraill Llechi, Glo a Chefn Gwlad yng Ngogledd Cymru. Mae'r sefydliad wedi aros yn fach yn fwriadol, gan ganolbwyntio ar ddatblygu'r mentrau cymunedol y mae'n eu cynorthwyo. Dros y tair blynedd diwethaf, mae Cwmni Bro Ffestiniog wedi magu hyder a dealltwriaeth o'i rôl.

Yn 2020, pan ddechreuodd Llechi, Glo a Chefn Gwlad, roedd Cwmni Bro Ffestiniog am ddatblygu BroCast, sef model darlledu yn y gymuned a fyddai'n rhannu newyddion a thalent leol a darparu gwybodaeth leol iawn. Derbyniwyd Gwenlli (2020) yn arweinydd cymunedol i ddatblygu BroCast. Yn ystod y pandemig daeth ei gwaith yn ffordd hanfodol o gynorthwyo'r gymuned, gan ddarparu ffilmiau 'newyddion da' a hyd yn oed pantomeim wedi'i ffilmio. Roedd hefyd yn rhan o drefnu gwirfoddolwyr i gynorthwyo aelodau agored i niwed o'r gymuned a threfnu ffilmio cyfweiliadau a sesiynau gwybodaeth, er enghraifft pan siaradodd y meddyg lleol am y mythau ynghylch brechiadau COVID-19. Mae Gwenlli wedi parhau i weithio gyda Cwmni Bro Ffestiniog, gan ddatblygu BroCast yn ogystal â hwyluso rhwydwaith o fentrau cymunedol. Roedd hefyd yn rheolwr llinell ar gyfer y ddau arweinydd cymunedol nesaf.

Branwen (2021) oedd yr ail arweinydd cymunedol. Gweithiodd i ddatblygu'r rhwydwaith o fentrau cymunedol, gan sefydlu cylchlythyr dwyieithog rheolaidd. Bu hefyd yn gweithio i helpu i ddatblygu llais pobl ifanc yn lleol, gan eu cynorthwyo i gwrdd i drafod syniadau a hwyluso hustyngau ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed a oedd yn gallu pleidleisio am y tro cyntaf fel y gallent gwrdd ag ymgeiswyr lleol ar gyfer y Senedd a'u holi am y materion a oedd o bwys iddynt. Ar ôl ei blwyddyn, aeth Branwen i addysgu yn Ne Korea.

Canolbwyntiodd y trydydd arweinydd cymunedol, Rebecca (2022), ar ddatblygu gweithgareddau diwylliannol a chreadigol gan weithio gyda phobl ifanc a'r gymuned ehangach. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda phobl i feddwl am y ffordd orau o

ddefnyddio adeiladau lleol i gynorthwyo'r gymuned gan gynnwys yr eglwys yn Llanffestiniog, a brynwyd gan gymwynaswr i'r ardal, a hen adeilad yr Urdd ym Mlaenau Ffestiniog sydd wedi'i brynu gan Gwmni Bro Ffestiniog ar gyfer y gymuned. Sefydlodd Rebecca Theatr Gybolfa fel menter gymdeithasol gyda'i bwrdd cyfarwyddwyr ei hun ac mae'n parhau i ddatblygu'r fenter hon.

Siop Griffiths

Tyfodd Siop Griffiths o raglen ieuenctid hir ym Mhen-y-groes ac roedd pob un o'r arweinwyr cymunedol a gyflogwyd wedi cymryd rhan ers pan oeddent yn ifanc iawn. Cymerodd y grŵp siop wag (Siop Griffiths) a ffurfio menter gymunedol newydd sydd, dros y tair blynedd diwethaf wedi datblygu'n ased cymunedol sylweddol, gan droi'r siop yn gaffi a lle cyfarfod gydag ystafell Airbnb uwchben a datblygu'r adeiladau allan fel gofod technoleg, gemau a gwneuthurwyr. Mae'r adeilad drws nesaf wedi'i brynu gyda chynlluniau ar gyfer canolfan menter ieuenctid.

Ailenwyd y ganolfan yn Yr Orsaf, oherwydd dyma lle byddai'r tramiau'n aros yn wreiddiol, ac mae wedi tyfu yn ystod tair blynedd partneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad o un gweithiwr rhan-amser (yr arweinydd cymunedol oedd eu gweithiwr amser llawn cyntaf) hyd at gyflogi naw aelod o staff. Mae'r Orsaf wedi datblygu ei rôl gymunedol i gynnwys sicrhau bod bws mini a char trydan a beiciau trydan ar gael i drigolion lleol a thwristiaid eu llogi. Mae wedi datblygu rhandiroedd a gardd wyllt gymunedol a sefydlu digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol fel clwb ffilmiau, teithiau cerdded cymunedol ac mae'r clwb ieuenctid yn dal i fynd. Mae Siop Griffiths wedi gweld ei throsiant yn cynyddu o £20,000 i £200,000 dros y blynyddoedd hyn, ac eithrio'r grantiau cyfalaf a godwyd i brynu a datblygu adnoddau.

Mae Ben Gregory yn dweud bod y bartneriaeth a ddatblygwyd gan Llechi, Glo a Chefn Gwlad, yn enwedig gyda Phartneriaeth Ogwen a Chwmni Bro Ffestiniog, wedi bod yn drawsnewidiol i Siop Griffiths. Y daith yn y car i'r cyfarfod ymchwiliol cyntaf ar gyfer y prosiect oedd y tro cyntaf i'r tri sefydliad gyfarfod. Ar y pwynt hwnnw nid oedd Siop Griffiths yn cyflogi unrhyw un ac mae Ben yn glir na fyddai'r datblygiadau y maent wedi'u cyflawni dros y tair blynedd diwethaf wedi digwydd heb ymgysylltu â phartneriaeth Llechi, Glo a Chefn Gwlad. Mae'r prosiect hefyd wedi eu galluogi i ddatblygu perthynas â Sefydliad Rank.

Mae'r model Llechi, Glo a Chefn Gwlad o gyflogi pobl leol a rhoi cymorth iddynt ddod yn arweinwyr cymunedol hyderus yn un heriol ar gyfer sefydliad mor newydd gyda chyn lleied o staff ac roedd pob un o'r arweinwyr cymunedol a gyflogwyd gan Yr Orsaf wedi dod yn syth o'r ysgol neu'r brifysgol, felly roedd angen llawer o gymorth arnynt. Roedd y pandemig hefyd wedi effeithio ar yr hyn y gallai'r arweinwyr cymunedol ei wneud a sut y gallent gael cymorth. Mae'r sefydliad yn nodi ei fod wedi dysgu llawer am gynorthwyo gweithwyr dan hyfforddiant.

Helpodd yr arweinydd cymunedol cyntaf, Daniel (2020) i ddatblygu ystafell TG a chyfathrebu yn y sefydliad – gwaith a ddaeth yn hanfodol pan darodd y pandemig. Yn ddiweddar mae wedi dechrau gwaith fel technegydd i Theatr Frân Wen.

Datblygydd Gwion (2021) adnoddau ar hanes lleol i dwristiaid a thriogion lleol a datblygodd ac arwain cyfres o deithiau cerdded yn yr ardal, gan archwilio safleoedd lleol o ddiddordeb. Ysgrifennodd lyfryn dwyieithog 'Cerdded llwybrau troed Dyffryn Nantlle a dysgu am hanes lleol' a sefydlodd raglen o ddarlithoedd ar-lein am hanes lleol. Wedi hynny aeth yn ôl i'r brifysgol i astudio ar gyfer gradd Meistr.

Cynhaliodd y trydydd arweinydd cymunedol, Osian (2022), weithdai cerddoriaeth yn y gymuned gan ddod â phobl ifanc a grwpiau hŷn at ei gilydd i greu cerddoriaeth a dysgu am gynhyrchu. Gweithiodd gydag ysgolion a sefydliadau cymunedol eraill hefyd i hyrwyddo creadigrwydd a cherddoriaeth. Mae wedi'i dderbyn ar gyfer lle prifysgol mewn rheoli cerddoriaeth a menter greadigol ac, yn y cyfamser, mae'n parhau i weithio gyda'r Orsaf i gynnal sesiynau.

Partneriaeth Adfywio Ynys-y-bwl

Mae pentref Ynys-y-bwl yng Nghwm Cynon ac mae ganddi gymuned weithgar iawn o wirfoddolwyr sy'n ymroddedig i wella'r economi a'r amgylchedd lleol a llesiant pobl leol. Rôl y Bartneriaeth Adfywio yw cynorthwyo grwpiau a mentrau lleol i wneud newid cynaliadwy, gan gynnwys sicrhau asedau sy'n eiddo i'r gymuned.

Gweithiodd yr arweinydd cymunedol cyntaf, Lowri (2020), gyda phobl ifanc i ddatblygu menter a meithrin rhwydweithiau gyda busnesau lleol a mentrau cymdeithasol. Dargyfeiriodd y pandemig ei gwaith i gynorthwyo pobl gartref, gan

gynnwys datblygu pecynnau gweithgareddau i bobl ifanc a sefydlu sesiynau gwaith ieuenctid ar-lein. Aeth Lowri ymlaen i weithio fel cynghorydd cyflogaeth.

Roedd un o'r syniadau menter a ddatblygodd yn 2020, yn gysylltiedig â'r gwaith roedd Strategaeth Adfywio Ynys-y-bwl yn ei wneud wrth ddatblygu llwybrau coetir a gweithgareddau awyr agored, yn ymwneud â chynnal a chadw ac adnewyddu beiciau. Sefydlodd Andrew (2021) siop atgyweirio beiciau ar y brif ffordd yn Ynys-y-bwl a gweithiodd gyda phobl ifanc o'r ysgol leol i rannu ei sgiliau. Parhaodd Andrew i weithio ar feiciau ar ôl ei flwyddyn ar y prosiect.

Llwyddodd y Bartneriaeth i brynu hen adeilad a rhywfaint o dir o'i amgylch. Roedd yr adeilad yn adfeiliedig ac wedi tyfu'n wyllt iawn ac yn y flwyddyn olaf cafodd Beth (2022) ei chyflogi yn arweinydd cymunedol i weithio gyda'r gymuned i ddatblygu'r safle a chynllunio'r defnydd o'r adeilad. Gweithiodd Beth gyda gweithwyr ieuenctid ac ysgolion lleol i gynnwys pobl ifanc mewn gwaith amgylcheddol, creadigol a chynllunio a chyda phobl hŷn o ran defnyddio technoleg ddigidol. Dros yr haf gweithiodd Beth gyda thros 250 o bobl ac roedd llawer o'i gweithgareddau yn ystod y flwyddyn yn cynnwys teuluoedd cyfan. Mae Beth yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth Adfywio Ynys-y-bwl.

Pobl a Gwaith: Cenhedlaeth Rhondda

Canolbwyntiodd Pobl a Gwaith eu cyfranogiad gyda Llechi, Glo a Chefn Gwlad ar y Rhondda a gwaith i gynorthwyo gweithredu o dan arweiniad y gymuned yn nau gwm Rhondda. Cafodd y dull o recriwtio a chynorthwyo arweinwyr cymunedol ei wreiddio yn ystod y tair blynedd diwethaf a'i ddatblygu yn rhaglen Cenhedlaeth Rhondda. Rhoddodd y pwyslais ar yr economi leol yn Llechi, Glo a Chefn Gwlad gyd-destun ar gyfer y gwaith a thros y tair blynedd diwethaf mae arweinwyr cymunedol wedi'u cyflogi i ddatblygu llythrennedd a chynhwysiant technoleg ddigidol a deall effaith y pandemig ar fusnes ac addysg.

Canolbwyntiodd Ethan (2020) ar ddatblygu clybiau codio a phan oedd y pandemig wedi atal pobl rhag dod at ei gilydd, datblygodd adnoddau ar-lein i blant, pobl ifanc ac ysgolion, gan gynnwys 9 fideo cyfarwyddyd. Mae'n dal i gael ei gyflogi gan Pobl a Gwaith ac mae'n cynnal rhaglen cynhwysiant digidol yn y Rhondda. Dros y blynyddoedd mae'r ddau glwb codio y mae'n eu cynnal wedi cynyddu i chwech ac

mae wedi gweithio gyda thros 500 o bobl yn y Rhondda gan gynnwys gwylliau digidol gyda'r coleg lleol i ddod ag ysgolion i mewn i weld y gyrfaoedd y gall TG eu darparu.

Aeth Rhian (2021) ati i gofnodi straeon y pandemig, i archwilio sut roedd busnesau lleol yn ei oroesi a'i effaith ar fywydau pobl. Datblygodd gyfres o ffilmiau byr gydag ymatebion cymunedol a datblygodd gynnydd ar gyfer rhaglen i gynorthwyo teuluoedd i helpu eu plant i ddal i fyny ar yr ymarfer darllen yr oeddent wedi'i golli oherwydd COVID-19. Cafodd hyn ei gyllido wedi hynny a bu'n rhaglen lwyddiannus iawn ac mae wedi gweithio gyda thros 80 o deuluoedd yn ei chwe mis cyntaf. Mae Rhian bellach yn gweithio yn y Rhondda ar farchnata cynnwys ar gyfer system apiau i fusnesau yn ne Cymru.

Dechreuodd Justin (2022) gyda Pobl a Gwaith drwy'r cynllun Kickstart lle dangosodd gryn dalent ar gyfer TG. Ymunodd â Llechi, Glo a Chefn Gwlad i ddatblygu menter gymdeithasol i gasglu hen offer TG dieisiau sydd wedyn yn cael ei lanhau a'i adnewyddu a'i fenthyg neu ei roi i bobl leol y mae ei angen arnynt. Hyd yma mae tua 40 o ddyfeisiau wedi'u casglu ac mae 30 wedi'u hail-bwrpasu yn y gymuned. Mae Justin wedi gwneud cais i fynd i'r brifysgol ac mae'n gweithio o bell ym maes TG i gwmni o Lundain ac mae'n parhau mewn cysylltiad â thîm Pobl a Gwaith wrth weithio ym maes lletygarwch.

Mae'r model Llechi, Glo a Chefn Gwlad wedi ail-lunio dull Pobl a Gwaith o weithio gyda chymunedau. O'r chwe aelod o staff yn y tîm Cenhedlaeth Rhondda a gyflogir gan Pobl a Gwaith, daeth pump drwy leoliadau hyfforddeiaeth ac mae pob prosiect bellach yn cynnwys elfen o gyfranogiad hyfforddeion lleol. Ar draws tair blynedd prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad, cafodd 14 o bobl ifanc o'r Rhondda eu cyflogi drwy Cenhedlaeth Rhondda.

Dysgu allweddol

Mae'r adran hon yn dwyn ynghyd y dysgu allweddol o brosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad gyda rhai enghreifftiau o waith partneriaid. Dyma'r meysydd allweddol:

- Roedd gweithio mewn partneriaeth drwy gyfnod o argyfwng a newid sylweddol wedi rhoi cymorth cymheiriaid, syniadau newydd ac ysgogiad i dyfu i bartneriaid
- Roedd y partneriaid mewn sefyllfa dda i gynorthwyo pobl drwy'r pandemig ond hefyd i helpu pobl i ddychwelyd i fywyd cymunedol ac ymdopi â'r gorbryder o fod gyda phobl eraill eto
- Mae diwylliant a chreadigrwydd yn hanfodol i fywyd a llesiant cymunedol
- Mae cynorthwyo aelodau o'r gymuned i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth yn fuddsoddiad sy'n cael effaith hirdymor
- Mae gan gymunedau ledled Cymru lawer mwy yn gyffredin na gwahaniaethau ac mae gweithio gyda'i gilydd wedi rhoi amser iddynt ddarganfod y profiadau a'r gwerthoedd cyffredin hynny

Roedd gweithio drwy bandemig wedi llunio gwaith yr holl bartneriaid a'r bartneriaeth gyfan ac un o werthoedd allweddol y rhaglen oedd y cyfle i bartneriaid rannu profiadau a syniadau a rhoi cymorth cymheiriaid wrth iddynt weithio drwy rai o'r cyfnodau mwyaf anodd yr oedd eu cymuned erioed wedi'u hwynebu.

Dod â phobl at ei gilydd eto

Wrth i gyfyngiadau gwaethaf y pandemig gilio, gwnaeth yr holl bartneriaid brofi'r ofnau yr oedd pobl yn eu teimlo ynghylch bod mewn mannau cyhoeddus eto. Mae llawer o'r gwaith yn 2022 wedi ymwneud â chael pobl at ei gilydd, trefnu digwyddiadau a gweithgareddau sydd wedi galluogi pobl i deimlo'n ddiogel gydag eraill. Dechreuodd y partneriaid drefnu gweithgareddau awyr agored yn 2021 a thyfodd hyn yn 2022, gyda thri phartner yn sefydlu clybiau rhedeg ac eraill yn datblygu grwpiau cerdded, rygbi a pêl-droed dan gerdded a gweithgareddau garddio.

Ym Mlaenau Ffestiniog, lansiodd rhaglen o'r enw Dewch Allan gan gynnig 16 o ddigwyddiadau a oedd yn cymysgu gweithgareddau cymdeithasol, creadigol ac ymgynghori ac yn profi'r math o bethau yr oedd pobl am gymryd rhan ynddynt. Ym Mhen-y-groes, dechreuodd Siop Griffiths ei Chanolfan Ddigidol ym mis Ionawr 2022 gyda chlwb codio, Gofod Gwneud a Chaffi Trwsio. Cynhaliwyd noson sinema i bobl hŷn, ynghyd â noson jazz o'r 1930au ac ail-lansiodd rhaglen o sesiynau cyhoeddus gyda'r nod o ddod â phobl at ei gilydd. Cynhaliodd Tir Coed, DOVE a Pobl a Gwaith raglenni Haf o Hwyl Llwyddiannus.

Cynhaliodd arweinydd cymunedol Credu, Bryony, flwyddyn o ddatblygiad cymunedol yn y Trallwng. Yn ddiweddar, cyflogodd Credu eu cydlynnydd gwirfoddoli cyntaf a chynyddodd nifer y gwirfoddolwyr yn gyflym o 30 o bobl i dros 200. Mae llawer o'r gwirfoddolwyr hyn yn ofalwyr eu hunain gan herio'r model 'achub' o gefnogi gofalwyr. Dechreuodd y flwyddyn gyda chymysgedd o sesiynau wyneb yn wyneb ac ar-lein a thyfu'r gwaith wyneb yn wyneb yn raddol. Roedd pobl yn dal yn bryderus iawn ynghylch dod allan ar ddechrau'r flwyddyn ond denodd y diwrnod agored cyntaf i'r teulu 60 o bobl a defnyddio picnics a gweithgareddau awyr agored eraill lle roedd pobl yn nerfus ynghylch ymuno i mewn. Mae Bryony wedi canolbwyntio ar gynorthwyo gofalwyr i greu eu cymuned eu hunain a'u cysylltu nhw â'r gymuned leol. Gweithiodd gyda busnesau ac elusennau lleol a chynorthwyo gofalwyr i gynnal sesiynau wythnosol rheolaidd a'u digwyddiadau eu hunain fel picnic Balchder y daeth 100 o bobl iddo ac a gafodd ei sefydlu a'i ariannu'n llwyr gan y gofalwyr eu hunain. Gwnaeth hefyd gynorthwyo gofalwyr i ymuno â gweithgareddau cymunedol fel carnifal y Trallwng. Gan weithio gyda thafarn leol, cafodd gofalwyr ifanc sesiynau tafarn yn gynnar gyda'r nos fel grŵp, gan eu helpu i gymdeithasu a chodi eu hyder mewn lleoliad cymdeithasol. Cafodd deg gofalwr ifanc daith penwythnos i Lundain, ac i'r rhan fwyaf dyma oedd eu profiad cyntaf o fod mewn dinas.

Ym Manwen, gweithiodd rhaglen iechyd meddwl i fynd i'r afael ag ynysigrwydd a chael pobl yn ôl i normalrwydd drwy sesiynau rheoli gorbryder. Datblygodd DOVE sesiwn te a sgwrs wythnosol i bobl hŷn a datblygodd raglen i helpu pobl i fagu hyder o ran bod gydag eraill. Cyflwynodd y ganolfan sesiynau ioga, cwrs hanes teuluol o dan arweiniad gwirfoddolwr, cwrs mathemateg i 'ddychwelyd i ddysgu' a sesiynau crefft. Erbyn diwedd mis Chwefror, roedd y ganolfan ym Manwen yn llawn am y tro cyntaf ers y pandemig. Dros amser ychwanegwyd sesiwn canu am hwyl a

manteisiodd 14 o bobl ar gwrs blasu'r Gymraeg. Cynigiodd gwirfoddolwr gynnal sesiwn blasu ffotograffiaeth a datblygwyd clwb cinio wedi'i dargedu at gael pobl allan o'r tŷ a chymysgu eto. Ar y dydd Sul cyntaf ym mis Medi, daeth 65 o bobl i gael te a phice ar y maen a daeth 50 o bobl i barti stryd y Jiwbilî a gynhaliwyd gan DOVE gydag Action for the Elderly.

Creodd arweinydd cymunedol DOVE, sef Angie, grwpiau newydd gan gynnwys aelodau grŵp 'nad ydynt yn nodweddiadol'. Gweithiodd gyda grwpiau o blant a'u rhieni i ddatblygu clybiau tyfu, grwpiau cerdded a digwyddiadau awyr agored. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys 'rhaglen tyfu' dros yr haf; Ysgol Goedwig; gweithgareddau Haf o Hwyl dros chwe wythnos; taith gerdded Gŵyl y Gaeaf a ffair grefftai. Roedd y grŵp Flower Pots, sef clwb garddio ar ôl ysgol i blant 6-12 oed, mor boblogaidd fel y cynhaliwyd dwy sesiwn yr wythnos gan gynnwys 40 o blant, gyda 15 yn rhagor ar y rhestr aros a chynnwys pedwar gwirfoddolwr sy'n cynnig eu sgiliau. Ymwelodd pob un o'r 20 o athrawon o'r ysgol leol â'r sesiynau ac wedi hynny gofynnwyd i Angie ddod i'r ysgol i siarad am weny.

Diwylliant a chreadigrwydd

Cafodd pwysigrwydd diwylliant a chreadigrwydd mewn llesiant dynol ei amlygu yn ystod y pandemig. Dangosodd BroCast Ffestiniog enghreifftiau o greu ffilmiau lleol, barddoniaeth, cerddoriaeth a ffotograffiaeth ac yn 2022 helpodd Rebecca, arweinydd cymunedol gyda Chwmni Bro Ffestiniog, Theatr Gybolfa, sef grŵp theatr lleol, i ddatblygu fel mentor gymdeithasol, gyda chymorth Cwmpas, gan gynnal gweithdai celf a drama mewn pentrefi lleol. Maent wedi gallu cynnig cyfle swydd i berson ifanc ar sut i hwyluso ac arwain y grŵp a'u nod yw gwneud y grŵp yn gynaliadwy.

Cynhaliodd Llinos, yr arweinydd cymunedol gyda Tir Dewi, gystadleuaeth ffotograffiaeth i godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen ac mae'r ceisiadau buddugol bellach yn cael eu harddangos yn y Senedd, Maes Sioe Frenhinol Cymru, Treilars Ifor Williams, Sioe Môn a Mart Caerfyrddin.

Sefydlwyd Gofod Gwneud ym Mlaenau Ffestiniog, Bethesda a Phen-y-groes a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn dysgu sgiliau fel trwsio dillad ac mewn sesiynau gofod i

wneuthurwyr. Roedd pobl ifanc leol hefyd yn ymwneud â phrosiectau celfyddydau a ffilmiau o bob rhan o Gymru, fel cyfranogiad Cwmni Bro Ffestiniog gyda Galwad².

Mae Osian, yr arweinydd cymunedol gyda Siop Griffiths, wedi ymwneud â'r sîn gerddoriaeth yn Nantlle y rhan fwyaf o'i fywyd, ymunodd â'r clwb ffilmiau cyntaf a gynhaliwyd ym Mhen-y-groes pan oedd yn 11 oed. Llwyddodd i sicrhau arian i ddatblygu stiwdio dros dro a gweithiodd i gael mentoriaid o'r sîn gerddoriaeth Gymraeg. Sefydlodd system archebu ar gyfer y stiwdio a chynnal sesiynau blasu ar gyfer cynhyrchu cerddoriaeth a chyfansoddi ac yna dechreuodd glwb cymdeithasol 18+ i bobl jamio a chael hwyl gyda'i gilydd. Daeth Osian â cherddoriaeth i feysydd eraill o waith Siop Griffiths gan gynnwys creu pianos allan o fananas mewn clwb codio a chynnal prosiect i staff o amgylch sgiliau cerddoriaeth. Cynhaliodd weithdai cerddoriaeth gyda grwpiau o blant 8-13 oed a 14-16 oed a sefydlu grŵp jamio i oedolion. Dros wyliau'r Pasg cynhaliodd weithdai tri diwrnod gan gymryd cân o'r cychwyn cyntaf hyd at ei chynhyrchu'n llawn. Gwnaeth Osian hefyd gyflwyno sesiynau cerddoriaeth mewn ysgolion a chynhaliodd weithdai cerddoriaeth a DJ yn ystod gwyliau'r ysgol.

Buddsoddi mewn gwybodaeth a sgiliau cymunedol

Rhoddodd y partneriaid gyfle i bobl leol ddatblygu sgiliau a phrofiad. Yn Llan Ffestiniog, ffurfiodd pobl ifanc bwyllgor i gynllunio gweithgareddau ac maent yn ystyried syniadau mentergarwch. Cawsant sesiwn holi ac ateb gyda busnesau bach lleol a gwahoddwyd ysgolion a busnesau bach i helpu gyda'u syniadau ynghylch sefydlu busnes. Aeth Rebecca i ysgolion er mwyn siarad am fenter gymdeithasol ar gyfer Bagloriaeth Cymru.

Ym mis Mawrth, cynhaliodd Cwmni Bro Ffestiniog gynhadledd ar ymchwil a wnaethant gyda Phrifysgol Manceinion ar y gymuned leol a'i dyfodol. Daeth dros 150 o bobl i'r gynhadledd gan gynnwys holl bartneriaid Llechi, Glo a Chefn Gwlad Gogledd Cymru.

² [GALWAD | 26 Medi - 2 Hydref 2022 | HAFAN](#)

Gweithiodd Llinos o Tir Dewi gyda'r ymatebwyr cyntaf ar ddamweiniau fferm a datblygu cynllun peilot yng Ngogledd Cymru o'r enw Ffrindiau Fferm gyda ffermwyr yn cefnogi ei gilydd.

Datblygodd Tir Coed eu cyrsiau gwaith saer ar draws pedair sir a gwnaeth Vik, yr arweinydd cymunedol, ddatblygu unedau dysgu achrededig Agored ar gyfer garddio bywyd gwyllt, garddio organig a chysiau eraill gyda'r nod o achredu gwirfoddolwyr sy'n gweithio ar erddi bywyd gwyllt cymunedol. Llenwodd y cwrs garddio bywyd gwyllt cyntaf ar unwaith. Gwnaeth Vik hefyd ysgrifennu llyfr gwaith i Agored Cymru yn seiliedig ar y ffaith na fydd llawer o bobl erioed wedi garddio o gwbl a byddant yn wynebu heriau wrth eu helpu i ddod o hyd i'w 'garddwr mewnol'. Gweithiodd gyda gwirfoddolwyr ar ardd gymunedol yn Aberystwyth a datblygu mannau gwyrdd yn y dref. Manteisiodd tri phartner ar becynnau gardd gymunedol Cadwch Gymru'n Daclus.

Gwnaeth Credu lawer o hyfforddiant dros y flwyddyn ar gyfathrebu cydweithredol â staff, gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned. Mae'r broses, sy'n cynnwys llawer o wrando myfyriol, wedi gwneud gwahaniaeth enfawr i'r ffordd y mae Credu'n gweithio ac i ofalwyr yn eu bywydau personol a chyswllt â gweithwyr proffesiynol. Maent wedi cynorthwyo gofalwyr ar ymgyrchoedd, fel ar gyfleusterau newid cyhoeddus mewn toiledau ar gyfer twristiaeth gynaliadwy, cynorthwyo gofalwr sy'n brwydro i gael cyfleusterau newid.

Yn ogystal â'i gwaith yn yr awyr agored mae Angie, o DOVE, wedi cynnal sesiynau am ddim i bobl hŷn ar fynd ar-lein a chynhaliodd sesiwn siopa ar-lein er mwyn helpu pobl i ddefnyddio eu ffonau. Cynhaliodd raglen ar gyfer wyth disgybl a oedd yn cael trafferth mynychu'r ysgol i wneud therapi celf, coginio a gweithgareddau awyr agored. Roedd hi ei hun wedi cwblhau cwrs ysgolion coedwig, cymorth cyntaf yn yr awyr agored, arweinwyr cerdded a'r cwrs Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl a chynhaliodd sesiynau Ysgolion Coedwig mewn dwy ysgol leol. Gweithiodd gyda Chlwb Eco ysgol a chyda'r cyngor cymuned i recriwtio 'rhyfelwyr eco' a chynnal ymgyrch 'peidiwch â llosgi fy nghoedwig'.

Roedd Justin, arweinydd cymunedol Pobl a Gwaith, wedi adfywio offer TG nad oedd pobl ei eisiau mwyach a rhoi cymorth i bobl i'w defnyddio. Gwnaeth hefyd helpu â chlybiau codio a gemau gan hyrwyddo cynhwysiant digidol ar gyfer pob cenhedlaeth.

Gweithiodd ar Wyl Ddigidol a wnaeth ddod â thair prifysgol at ei gilydd a grwpiau o ysgolion, y coleg, cyflogwyr a'r trydydd sector i ddathlu popeth digidol – yr ecosystem gyfan – o hamdden i gyflogaeth, addysg a diwylliant.

Cysylltu cymunedau

Mae'r holl bartneriaid yn cytuno bod y bartneriaeth wedi bod yn effeithiol iawn o ran eu helpu wrth i'w gwaith ddatblygu. Mae'r partneriaid yn awyddus i gynnal cysylltiadau a bydd yn defnyddio strwythur Talwrn i barhau i gyfarfod a rhannu syniadau a heriau.

Cysylltodd yr arweinwyr cymunedol eu cymunedau ac roedd yr ymweliadau partner yn bwerus o ran codi ymwybyddiaeth o faint yr oedd gan y partneriaid yn gyffredin. Er enghraifft, gweithiodd Osian o Siop Griffiths gyda gofalwyr ifanc yng Ngŵyl Haf Credu a chyda Llinos o Tir Dewi ar wneud ffilm.

Helpodd yr ymweliadau prosiect i ysbrydoli partneriaid a rhoddodd syniadau iddynt ar ffyrdd o weithio yn ogystal â gweithgareddau. Nododd Cath o Tir Coed werth gweithio mewn partneriaeth ar ôl yr ymweliad â Gogledd Cymru ac aeth ati i ddatblygu rhagor o weithio mewn partneriaeth o ganlyniad i hynny, gan gael effaith sylweddol ar sut y mae Tir Coed bellach yn gweithio. Cefnogodd Pobl a Gwaith ei dîm prosiect cyfan o weithwyr ifanc o'r Rhondda i wneud eu hymweliad eu hunain â phartneriaid Gogledd Cymru i'w helpu i ddeall sut y gallai dull cydlynol sy'n seiliedig ar le weithio. Daethant yn ôl wedi'u hysbrydoli ac maent bellach yn datblygu dull 'sefydliad angori' ar gyfer eu gwaith yn y Rhondda.

Wedi'u hysbrydoli gan ymweliadau, datblygwyd gerddi cymunedol gan nifer o bartneriaid a rhoddodd Vik o Tir Coed lawer o gymorth i helpu Bryony o Credu ac Angie o DOVE wrth iddynt ddatblygu eu rhai nhw.

Costau Byw

Wrth i bryderon am y peryglon a gyflwynwyd gan y pandemig ddechrau cilio, cawsant eu disodli gan bwysau cynyddol yr argyfwng costau byw. Daeth seilwaith dros dro a ddatblygwyd i ymdopi â'r pandemig, fel Pantri Pesda, y banc bwyd cyntaf ym Methesda, yn barhaol wrth i anghenion dyfu.

Daeth rhaglenni amgylcheddol fel y Caffi Trwsio (a sefydlwyd gan bedwar partner) a Benthylg/Library of Things (a sefydlwyd gan dri phartner) yn fwy pwysig fel ffyrdd i bobl arbed arian. Gwnaeth rhai partneriaid hefyd gynnwys sesiynau gyda grwpiau o'r gymuned leol a'r sector cyhoeddus i rannu sut y gallent helpu. Sefydlodd Cenhedlaeth Rhondda ddau ddigwyddiad costau byw i sefydliadau er mwyn hyrwyddo'r cymorth y gallant ei ddarparu, gan rannu'r wybodaeth ar safle Facebook.

Mae prosiect y Dref Werdd a sefydlwyd fel 'siop un stop' ym Mlaenau Ffestiniog lle gallai pobl fynd iddi i gael popeth o fwyd am ddim i gymorth i hawlio budd-daliadau ac mae'r tri phartner yng Ngogledd Cymru yn gweithio gyda'i gilydd ar brosiect Sero Net sy'n cyflogi wardeiniaid effeithlonrwydd ynni i gynghori pobl gartref ynghylch sut i dorri eu costau ynni. Mae Bws Ogwen yn cynnig teithio rhad ar gyfer teithiau siopa. Darparodd Strategaeth Adfywio Ynys-y-bwl frechdanau a ffrwythau yn ystod eu rhaglen haf.

Yr Amgylchedd

Mae blwyddyn olaf y prosiect wedi gweld pwyslais cryf ar yr amgylchedd a sut y gall cymunedau weithio gyda'i gilydd i'w gefnogi. Mae gan bedwar o'r partneriaid gerbydau trydan bellach at ddefnydd cymunedol ac mae tri yn rheoli rhandiroedd. Mae gerddi cymunedol yn cynnig cyfleoedd gwirfoddoli pwysig. Er enghraifft, mae gwirfoddolwyr gyda Tir Coed wedi bod yn sefydlu gerddi cymunedol yng Ngheredigion ac wedi adnewyddu parc yn Aberystwyth. Gweithiodd yr arweinydd cymunedol, Vik, gyda gwirfoddolwr sy'n artist graffeg i ddatblygu map darluniadol o'r gwaith paratoi'r pridd yn Aberystwyth a mapio'r holl fannau tyfu. Mae Pobl a Gwaith yn datblygu hybiau cynaliadwyedd yn y Rhondda ac yn cynorthwyo menter gymdeithasol leol sy'n datblygu siop sero wastraff. Mae'r tri phartner yng Ngogledd Cymru yn cydweithio ar y rhaglen GwyrddNi³ - mudiad gweithredu ar gyfer yr hinsawdd sydd wedi'i leoli yn y gymuned.

Asedau cymunedol

Ar draws y tair blynedd, sicrhodd y partneriaid fuddsoddiad sylweddol ar gyfer eu cymuned gan sicrhau cyllid, er enghraifft, i brynu hen feddygfa yn Ynys-y-bwl,

³ [GwyrddNi](#)

datblygu gardd gymunedol y tu allan i ganolfan DOVE a phrynu ac adnewyddu adeiladau lleol amlwg yng Ngwynedd.

Cafodd y rhan fwyaf o'r arweinwyr cymunedol brofiad o sicrhau cyllid i ddatblygu eu gwaith yn y gymuned. Er enghraifft, sicrhaodd Osian gyllid ar gyfer gweithdai cerddoriaeth, sicrhaodd Bryony gyllid ar gyfer yr Hive, cyfleuster cymunedol lleol, mae Angie wedi helpu i sicrhau cyllid ar gyfer gwaith yn y dyfodol ac mae Llinos o Tir Dewi wedi defnyddio ei rôl wrth godi ymwybyddiaeth o waith yr elusen i gynorthwyo codi arian yn y gymuned.

Atodiad

Y Cwrs Datblygu Cymunedol 2020-2022

Cwrs Cyflwyniad i Arweinwyr Cymunedol - *Introductory Course to Community Leadership*

Wedi'i achredu gan **Agored Cymru**

- Dyfarniad Cyfranogiad Pobl Ifanc Lefel 2
- Dyfarniad Datblygu Cymunedol Lefel 2

Datblygwyd a chyflwynwyd gan Val Williams, arweinydd a hyfforddwr Datblygu Cymunedol, Sylfaen Cymunedol Cyf., a Selwyn Williams, gwirfoddolwr cymunedol a darlithydd ym Mhrifysgol Bangor mewn Dysgu Gydol Oes ac MA cwrs Datblygu Cymunedol (wedi ymddeol).

Datblygwyd y cwrs yn wreiddiol ar gyfer ei gyflwyno wyneb yn wyneb ond oherwydd y pandemig cafodd ei addasu i'w gyflwyno drwy blatfformau ar-lein, gan ei agor i fyny i bobl o bob rhan o Gymru i ddilyn y cwrs gyda'i gilydd. Mae 29 o bobl wedi cwblhau'r cwrs. Roedd y rhain i gyd yn bobl mewn cyflogaeth – roedd y rhan fwyaf ohonynt yn arweinwyr cymunedol ifanc a recriwtiwyd i gontract 12 mis i weithio yn eu cymuned fel rhan o'r prosiect Llechi, Glo a Chefn Gwlad.

Trosolwg o'r Sesiynau Digidol/Overview of Digital Sessions for 2022

1	Cychwyn yn y gwaith Starting Up	8/2/22	Val
2	Adnabod Asedau Identifying Assets	15/2/22	Val
3	Sgiliau cyfathrebu Communication Skills	22/2/22	Val
4	Sgiliau gwaith grŵp Group work skills	2/3/22	Val
5	Cynnwys pawb Including everyone	8/3/22	Val
6	Cefnogaeth Achrediad Accreditation Support	15/3/22	Val
7	Deall Cymuned Understanding Dyffryn Peris	22/3/22	Sel
8	Datblygiad Cymuned Y berthynas rhwng cyfalaf, y wladwriaeth a'r gymuned (gan gynnwys yr economi sylfaenol)	29/3/22	Sel
9	Datblygiad Cymuned Athroniaeth a Gwleidyddiaeth Datblygiad Cymuned	5/4/22	Sel
10	Ymarfer Datblygu Cymuned Community Development Practice	12/4/22	Val
11	Adnabod Asedau Cymunedol Identifying Community Assets	26/4/22	Val
12	Ymgynghoriad Cymunedol Community Consultation	3/5/22	Val
13	Ymarfer Datblygu Cymuned	10/5/22	Val

	Community Development Practice		
14	Cefnogaeth Achrediad Accreditation Support	17/5/22	Val
15	Cefnogaeth Achrediad Accreditation Support	24/5/22	Val
16	Sefydlu grŵp Establishing groups	7/6/22	Val
17	Cynllunio Cymunedol Community Design	14/6/22	Gordon Gibson
18	Amlinelliad cynllun Project Outline	21/6/22	Val
19	Grantiau a rheoli arian Grants and managing Finance	28/6/22	Val
20	Be arall all fynd o'i le? What else can go wrong?	5/7/22	Val
21	Gwerthuso Evaluation	12/7/22	Val

Adborth gan bobl sydd wedi gwneud y cwrs a ddarparwyd ar gyfer y cais hwn:

Roedd y cwrs datblygu cymunedol o fudd mawr i mi ar adeg pan oeddwn yn dechrau swydd newydd fel arweinydd cymunedol. Yn ogystal â dysgu rhagor am y broses o ddatblygu cymunedol, galluogodd ddealltwriaeth o'r themâu a'r heriau cyffredin yr ydym i gyd yn eu hwynebu yn ein cymunedau a gwnaeth i mi sylweddoli pa sgiliau a phrofiad personol y gallwn eu harneisio i wneud gwahaniaeth. Ar adegau gwnaeth fy herio i feddwl yn ehangach ynghylch beth yw gwaith cymunedol mewn gwirionedd. Ar adegau eraill roeddwn yn teimlo fy mod wedi fy nghyflyru gan ddilysu o ran sut roeddwn yn mynd at rai agweddau ar fy ngwaith. Yn fwyaf buddiol i mi roedd cyfarfod yn rheolaidd gyda grŵp o bobl o'r un meddylfryd lle roeddem yn gallu rhannu ein profiad ar y cyd a siarad am yr heriau sy'n ein hwynebu wrth i ni ymgymryd â rolau arweiniol yn ein cymunedau. Roedd Val yn arweinydd cwrs gwybodus, ysbrydoledig a oedd yn ein hannog.

Gwnaeth Rebecca Phasey y cwrs yn 2022, Cwmni Bro Ffestiniog – arweinydd cymunedol sydd bellach yn datblygu grŵp celfyddydau

Gyda'r cymorth gan Val roeddwn yn gallu cwblhau a chael fy nhystysgrif, roedd pob un wedi'i gynnwys a'i gefnogi yn ein grŵp.

Edrychais ymlaen at ein grŵp wythnosol a llwyddodd Val i'w wneud yn ddifyr, yn gynhwysol ac yn hwyl. Rwy'n ddyslecsig a chefais fy nghynorthwyo â hyn a chynigiwyd cymorth ychwanegol i'm helpu i'w gwblhau.

Roedd Val mor wych fel y gwnaeth Credu fy nghefnogi gyda hyfforddiant ychwanegol gan Val ar ôl i'r cwrs ddod i ben. Mae gwledd yn disgwyl unrhyw un sy'n jymgyrdd â'i hyfforddiant. Dyma'r cwrs gorau i mi ei wneud eto, mae ganddi ffordd anhygoel o addysgu.

Mandy Hughes, gofalwr a gyflogwyd gan Gofalwyr Credu fel arweinydd cymunedol yn 2020.

Llynedd mi ges i'r cyfle i ddilyn Cwrs Datblygu Cymunedol efo Val o Sylfaen.

Cwrs gwych sy'n bendant yn hanfodol i bawb sy'n gweithio o fewn ein cymunedau yn fy marn i.

Beth yw cymuned? Sut fath o gymunedau gwahanol sy'n bodoli? Hanes cymuned (ers yr oes iâ i rwan!) ac yna astudio gwahanol grwpiau cymunedol a sut ma pobol yn mynd ati i greu prosiect sydd o fudd i'w cymunedau.

Beth yw amcanion datblygu cymunedol ac astudio enghreifftiau o sut y mae gwerthoedd datblygu cymunedol yn cael eu defnyddio wrth ddatblygu gweithgareddau cymunedol. Y broses, a'r ymddygiad sy'n ofynnol gan ymarferwyr datblygu cymunedol.

Dysgu am yr anghydraddoldeb sy'n bodoli o fewn cymunedau a sut i ddatrys hyn tra'n trefnu a gweithio ar brosiect. Dysgu am y gwahanol rym sydd gan unigolion a mudiadau a sut mae hyn yn effeithio ar ein cymunedau ac ar unigolion a theuluoedd o fewn ein cymunedau.

Roedd yn ffraind cael dilyn y cwrs yma a chymeryd rhan mewn trafodaethau wedi arwain gan Val am ein gwaith ni.

Yn aml, buasai mater yn codi oedd yn trwbli un ohonom yn ein prosiectau, felly ymlaen i ddysgu datrys pethau ar ffurf 'action learning'.

Roedd hyn yn wych o brofiad ac yn helpu ni i weithio yn well fel tîm ac fel unigolion yn ein cymunedau.

Roedd cael canllawiau cadarn fel hyn yn rhoi hyder i ni wrth fod yn arweinwyr datblygu cymunedol, ac yn werthfawr iawn at y dyfodol.

Rwy'n ddiolchgar iawn am gael y cyfle i ddysgu am hyn i gyd ac mi fuaswn yn hoffi cario mlaen i ddysgu mwy!

Lucinda Enston. Arweinydd cymunedol gyda Phartneriaeth Ogwen. Gwnaeth y cwrs yn 2021.

Rwyf wedi tyfu a dysgu cymaint ar y cwrs Datblygu Cymunedol gyda Val. Gan ymuno â Gweledigaeth Ynys-y-bwl (a'r trydydd sector yn gyffredinol) ar ôl bod yn ddi-waith am bum blynedd (a chyflogaeth gorfforaethol cyn hynny) rwy'n teimlo fy mod yn addas i dreiddio'n ddyfnach i'r hyn y dylai gweithiwr ac arweinydd cymunedol fod yn ei wneud.

Gallwn ddweud ar unwaith bod Val yn angerddol, gwybodus, gofalgwr a chefnogol Roedd am ddeall mwy amdanaf fi a'm taith. Ar ôl i ni symud i mewn i'r cwrs, arhosodd sawl pwnc a drafodwyd yn fy meddwl a'm helpu i symud i gyfeiriad newydd gyda fy mhrosiectau. Meddyliais yn ddyfnach am gynhwysiant, cyfiawnder cymdeithasol, hunanbenderfyniad, grymuso, cyfranogi, gweithredu ar y cyd, a chynaliadwyedd. Cwestiynu ein gwaith a'i effeithiau hirdymor ar yr amgylchedd, yr economi, a'r effaith gymdeithasol/effaith ar y pentref.

Rwyf wedi dod yn fwy ymwybodol o gynorthwyo eraill mewn ffordd gyfannol – rhannu adnoddau, rhwydweithio, annog meddwl yn feirniadol. Rwyf wedi cael mwy o ddealltwriaeth ymarferol o gael gafael ar ystadegau er mwyn helpu i greu darlun cywir wrth geisio cyllid neu cyn dechrau menter newydd. Mae gennyf fwy o werthfawrogiad o ymgynghori ac rwy'n teimlo bod y dull wyneb yn wyneb a 'thorchi llewys' yn gweithio'n dda yn ein sefydliad. Mae hefyd yn ddefnyddiol cael templedi ar gyfer cyfansoddiad, amlinelliad o gynllun busnes, ac ati.

Un o'r pethau mwyaf defnyddiol i mi ddysgu yw dal fy nhir o ran fy mhendantrwydd – i fod yn uniongyrchol, datgan yr hyn rwy'n ei deimlo'n agored, rhoi rhesymau gonest wrth ddweud na - mae hyn wedi bod yn bwerus fel person sydd wedi fy hyfforddi i gadw fy meddyliau i mi fy hun. Mae wedi bod yn ddefnyddiol fel arweinydd ac wrth geisio dealltwriaeth gyda'r unigolion/grwpiau rwy'n cydweithio â nhw hefyd.

Byddwn yn argymhell y cwrs yn fawr i unrhyw sy'n cael y cyfle i gymryd rhan. Roedd yn ysbrydus iawn ac yn agoriad llygad yn ymarferol. Rwy'n sicr yn chwilio am ddealltwriaeth ddyfnach o brofiad byw pawb rwy'n cyfarfod â nhw ar hyd y ffordd nawr.

Beth Maier, arweinydd cymunedol Strategaeth Adfywio Ynys-y-bwl. Gwnaeth y cwrs yn 2022

Roedd y cwrs hwn yn fuddiol iawn i mi, yn enwedig i rywun sydd am weithio yn y gymuned. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cwrs Datblygu Cymunedol wedi fy ngadael â dealltwriaeth wych o sut i ddatblygu a gweithio gyda chymuned.

Er bod y cwrs wedi'i gyflwyno drwy Zoom (rhywbeth rwy'n tueddu i gael trafferth ag ef), gwnaeth Val waith gwych yn cyflwyno'r cwrs a'n cynnwys ni i gyd. Byddai bob amser yn sicrhau ei bod yn ateb unrhyw gwestiynau a bob amser yn sicrhau bod gan bob dysgwr ddealltwriaeth lawn o gynnwys y sesiynau. Roedd ganddi hefyd gryn ddealltwriaeth bod ein hamserlenni weithiau'n gwrthdaro â'r sesiynau, ac roedd yn hynod o gymwynasgar a chefnogol wrth ein helpu i ddal i fyny ar unrhyw sesiynau a gollwyd.

Canolbwyntiodd pob sesiwn ar agweddau unigol ar Ddatblygu Cymunedol, fel deall beth sy'n ofynnol i ddatblygu grŵp cymunedol, sut i hwyluso grwpiau o'r fath, rhoi adborth effeithiol, a mwy. Darparwyd Astudiaethau Achos i ni hefyd yn ystod pob sesiwn i sicrhau bod gan bob un ohonom y ddealltwriaeth orau sy'n bosibl ynghylch beth oedd diben pob sesiwn a sut y maent yn cael eu gweithredu. Drwy gydol y cwrs

cawsom hefyd ddau siaradwr gwadd a gynhaliodd sesiwn yr un, a oedd yn ychwanegiadau braf i dorri'r sesiynau i fyny, ac er bod un yn cael trafferth gyda'i feicroffon, roedd y sesiynau hyn yn ddiddorol iawn ac yn ddefnyddiol iawn o ran deall pam mae'n bwysig bod rhai cymunedau'n newid ac yn datblygu, a'r manteision y gall newid arwain atynt.

Erbyn diwedd y cwrs, roeddwn yn teimlo'n llawer mwy hyderus yn fy ngwaith. Rwy'n teimlo bod y cwrs bellach wedi rhoi i mi'r offer a'r wybodaeth sydd eu hangen i gyflwyno'n llawer mwy effeithiol yn fy nghymuned. Rwyf hefyd yn teimlo bod gennyf ddealltwriaeth well o lawer o sut i sefydlu a grwpiau a chlybiau yn y gymuned. Byddwn yn bendant yn argymhell hwn i unrhyw un sydd am weithio mewn cymunedau a/neu sydd â diddordeb mewn Datblygu Cymunedol.

Tomos Jenkins. Arweinydd Cymunedol Ifanc. Gwnaeth y cwrs yn 2021

Roedd cwrs Val yn dda iawn, rwy'n credu ar y pryd i mi rannu y byddai'r cwrs cyfan yn ddefnyddiol i'n gweithwyr, yn enwedig o ran hwyluso grwpiau. Roedd y cyfarwyddiadau i ymuno yn glir. Cytunodd ar ddyddiad ac amser pob sesiwn â ni fel ein bod yn gwybod beth oedd yn digwydd. Nid wyf yn credu ei bod yn gyfarwydd â chyflwyno'r cwrs ar-lein, ond pwy oedd yn gyfarwydd â hynny yn 2020/21?!. Addasodd yn dda iawn, aeth yr elfen dechnegol yn ddidrafferth a'i gwneud yn haws i bobl o bob rhan o Gymru gymryd rhan.

Roedd Val ei hun yn ddymunol iawn ac yn hawdd mynd ati. Rwy'n teimlo bod ganddi gymysgedd gwych o'r theori, ond wedi ei wneud ei hun hefyd. Roedd yn croesawu ein bod rhannu ein profiadau ein hunain a neilltuodd amser i hyn. Rwyf wedi meddwl am sut i weithio gyda hi eto a byddwn yn argymhell gweithio gyda Val eto.

Marie Davies, a wnaeth y cwrs yn 2020. Roedd yn rheolwr prosiect ar gyfer Gofalwyr Credu, mae bellach yn Brif Swyddog Gweithredol Mind Aberhonddu.

Roedd y cwrs Datblygu Cymunedol yn hynod werthfawr i mi fel arweinydd dan hyfforddiant. Rhoddodd gyfle i mi ddysgu sgiliau newydd am gydweithio â'r gymuned yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn rhywbeth fyddaf yn cyfeirio nôl ato yn gyson yn fy ngwaith.

Gwenlli Evans, Cwmni Bro Ffestiniog. Gwnaeth y cwrs yn 2020

Pan ddechreuais wneud y cwrs Datblygu Cymunedol, roeddwn wedi tybio nad oeddwn wedi bod yn gwneud unrhyw ddatblygu cymunedol yn fy rôl, nac yn fy amser fy hun, ac roeddwn yn credu y byddai'r yn fy helpu i ddeall beth oedd datblygu cymunedol, a rhoi syniadau i mi ynghylch sut i fynd ati i'w wneud. Mewn gwirionedd, dangosodd y cwrs i mi FY MOD yn gwneud gwaith datblygu cymunedol, ac wedi bod yn gwneud hynny am ychydig o flynyddoedd! Rhoddodd y cwrs ddealltwriaeth gyflawn ac eang i mi o ddatblygu cymunedol a rhoddodd safbwynt i mi sydd wedi bod yn fuddiol yn fy ngwaith cyflogedig, fy ngwaith fel gwirfoddolwr a hefyd o ran bod o fudd i'r gymuned yr wyf yn byw ac yn gweithio ynddi.

Mae cael gwell dealltwriaeth o'r cyd-destun a datblygiad cymunedau, a chymhwyso hyn i fy nghymuned fy hun, wedi fy helpu'n fawr, a bu'n ddysgu yr wyf wedi gallu ei drosglwyddo i'r rhai rwy'n treulio amser gyda nhw. Mae wedi gwella'r effaith a gawn yn ein cymuned a hefyd wedi rhoi'r sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnom i geisio bod yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor, drwy sicrhau bod y rhai rydym yn treulio amser gyda nhw yn prynu i mewn ac yn ymgysylltu.

Mor aml, fel gwirfoddolwr yn y gymuned, rydych yn ceisio'ch gorau a gobeithio bod yr hyn rydych yn ei wneud yn iawn – mae gwneud y cwrs hwn wedi rhoi cyfeiriad i mi o ran sut i fynd ati o ran datblygu cymunedol, a hefyd hyder yn fy rôl a bod yr hyn rwy'n ei wneud ar gyfer y sefydliadau rwy'n treulio amser gyda nhw (am dâl ac yn ddi-dâl) yn cael yr effaith orau posibl.

**Natasha Burnell. Gwirfoddolwr cymunedol a gweithiwr menter gymdeithasol.
Gwnaeth y cwrs yn 2021**

“Roedd y cwrs datblygu cymunedol yn fuddiol iawn i'm datblygiad a'm dealltwriaeth o waith cymunedol. Mae wedi fy helpu i werthfawrogi fy nghymuned hyd yn oed yn fwy ac rwyf wedi treulio mwy o amser yn meddwl am bethau na fyddwn wedi meddwl amdanynt yn y gorffennol.

Roeddwn wir wedi mwynhau ymchwilio i gymunedau eraill a gweld sut maent wedi datblygu dros amser ac roedd yn ddiddorol iawn ymchwilio i hanes cymunedau yng Nghymru ac roedd cael siaradwyr gwadd yn golygu y gallem gael dealltwriaeth fwy personol ac uniongyrchol, er bod hyn wedi'i wneud drwy Zoom.

Treuliwyd llawer o amser yn ymchwilio i rolau gweithwyr mewn gweithle a chydabod pwysigrwydd safbwyntiau gwahanol a sut y gall fod yn ddefnyddiol cael sawl cyfrannwr i brosiect grŵp.

Rwy'n sylwi fy mod yn defnyddio llawer o'r pethau a ddysgais yn fy ngwaith ac rwy'n teimlo ei fod yn sicr wedi fy helpu i ddod yn weithiwr gwell yn y gwaith cymunedol rwy'n ei wneud.”

Justin George, arweinydd cymunedol. Gwnaeth y cwrs yn 2022

Mae'r cwrs Datblygu Cymunedol wedi bod yn wych. Mae wedi fy helpu llawer ar ddechrau fy ngyrfa fel datblygwr cymunedol. Roedd yn berthnasol iawn i fy swydd oherwydd fy mod yn gweithio fel datblygwr cymunedol. Dysgais llawer iawn am ddatblygiad cymunedol. Rhai o'r pethau ddysgais yw pam bod unigolion yn gwneud gwaith cymunedol. Dysgais sut i gynnwys pobl mewn gwaith cymunedol. Dysgais sut i ffurfio grŵp cymunedol a sut maent yn gweithio. Dysgais am y rolau sydd gan bobl mewn grŵp cymunedol. Dysgais y manteision ac anfanteision o wneud gwaith cymuned.

Teimlaf fod y cwrs wedi rhoi dealltwriaeth dda i mi o unigolion o fewn y gymuned. Mae hefyd wedi dysgu'r ochr ymarferol o waith cymunedol i mi. Dysgais bethau fel sut i greu menter gymdeithasol a sut i agor cyfrif banc i fenter gymdeithasol. Ar y cwrs roedd pobl eraill sydd hefyd ar ddechrau gyrfa. Roedd yn braf cael rhannu

profiadau a theimlais y dysgais lawer gan y bobl eraill ar y cwrs yn ogystal â Val.
Roedd llawer o drafod yn y wers ymysg y mynychwyr.

Lowri Larsen, Partneriaeth Ogwen. Cwrs 2022